

Swyddog Cyflogau Pensiwn

Gradd/ Graddfa Gyflog G03 - £25,119 - £26,421

**Codiad Cyflog 2024 yn yr Arfaeth**

Lleoliad: Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug gyda gweithio hybrid

Llawn Amser – Parhaol

Mae'r Adain Gweinyddu Pensiynau o fewn Cronfa Bensiynau Clwyd yn dymuno penodi unigolyn brwdfrydig i ymuno â'n tîm. Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn rhan o Gynllun Pensiynau Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr gan ddarparu buddion pensiwn i weithwyr y sector gyhoeddus.

**Y Cyfle**

Dyma gyfle cyffrous i ymuno â thîm ymroddedig a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth gweinyddu a thechnegol ar gyfer 52,000+ aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys cyflogau dros 13,500+ o aelodau. Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn darparu'r gwasanaeth yma i 50+ o gyflogwyr y cynllun. Mae gan y Gronfa gyfrifoldeb dros gynnal a chyfrifo buddion pensiwn ar gyfer aelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr gan gadw at y rheoliadau statudol.

**Amdanoch Chi**

Yn y swydd bwysig hon byddwch yn gweithio fel rhan o dîm sydd yn darparu gwasanaeth cyflogau proffesiynol i'n haelodau sy'n bensiynwyr. Bydd angen i chi weithio'n drefnus gan gynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich gwaith a dylech allu cyrraedd terfynau amser tynn a sicrhau y cynhelir perfformiad ac ansawdd y gwasanaeth. Mae lefel uchel o sgiliau rhifedd a TG gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd yn hanfodol. Rydym yn gwerthfawrogi eich sgiliau personol yn yr un modd. Bydd angen i chi feddu ar sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu llafar datblygedig a gwerthfawrogi pwysigrwydd gofal cwsmeriaid. Mae sgiliau ysgrifennu a siarad Cymraeg yn ddymunol.

**Rydym yn Cynnig**

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn Sir y Fflint, rydym ni'n cynnig isafswm o 34 diwrnod o wyliau (pro rata) blynyddol, gan gynnwys gwyliau banc, sy'n cynyddu i 41 diwrnod (pro rata) • Mynediad at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol • Cynlluniau hael sy'n ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith • Gweithio'n hybrid (swyddi penodol) • Cewch fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd datblygu • Rhaglen cymorth i weithwyr yn rhad ac am ddim • Cynllun Beicio i'r Gwaith • Gostyngiadau ar draws masnachwyr y DU.

Yn y rôl hon gallwch elwa o'n polisi oriau gweithio'n hyblyg a gweithio Hybrid gan weithio o'r swyddfa yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ar rai diwrnodau.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag:
Alicia Howells, Prif Swyddog Pensiynau, e-bost: alicia.howells@flintshire.gov.uk

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu
i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to
keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL